COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR DEDDF TRWYDDEDU 2003 A GYNHALIWYD O BELL TRWY TIMAU MICROSOFT DYDD MAWRTH, 25 MAI 2021, AM 10:00

Presennol

Y Cynghorydd DRW Lewis – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| TH Beedle | RJ Collins | PA Davies | A Hussain |
| RM James | B Jones | MJ Kearn | JE Lewis |
| AA Pucella | G Thomas | JE Williams | |

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Mark Galvin | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Andrea Lee | Uwch Cyfreithiwr |
| Michael Pitman | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Pwyllgorau |
| Yvonne Witchell | Rheolydd Tîm Trwyddedu |

24. DATGANIADAU O FUDDIANT

Dim

25. DEDDF TRWYDDEDU 2003 A DEDDF GAMBLO 2005 – DIRPRWYO SWYDDOGAETHAU

Cyflwynodd Arweinydd y Tîm Trwyddedu adroddiad yn rhestru'r trefniadau arfaethedig ar gyfer awdurdodi swyddogion o dan Ddeddf Trwyddedu 2003 a Deddf Gamblo 2005 ac yn cadarnhau trefniadau ar gyfer ffurfio is-bwyllgorau yn dilyn Cyfarfod Blynyddol y Cyngor 2021.

Esboniodd Rheolwr y Tîm Trwyddedu fod Adran 9 y Ddeddf Trwyddedu yn darparu y gallai pwyllgor trwyddedu sefydlu un neu fwy o is-bwyllgorau yn cynnwys tri aelod neu fwy o'r pwyllgor. Ar 16 Mai 2018, derbyniodd y Cyngor adroddiad sy'n pennu aelodaeth Pwyllgor Deddf Trwyddedu 2003.

Caniataodd Adran 10 Deddf Trwyddedu 2003 am is-ddirprwyo swyddogaethau gan bwyllgor trwyddedu i is-bwyllgor a sefydlwyd ganddo, neu'n amodol â rhai cyfyngiadau penodol, i swyddogion. Yn flaenorol cafodd awdurdodaethau eu cymeradwyo gan y Pwyllgor ond roedd angen eu diweddaru er mwyn adlewyrchu newidiadau i deitlau swyddi yn dilyn sefydlu'r Gwasanaeth Rheoliadol a Rennir a'r newid yn enw'r adran gwasanaeth.

Er mwyn perfformio'n effeithiol, cynigwyd dirprwyo'r cyfrifoldeb dros awdurdodi swyddogion i weinyddu gofynion Deddf Trwyddedu 2003 a Deddf Gamblo 2005, i Gyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Gweithredol a Phartneriaeth, ac i Bennaeth Gwasanaethau Rheoleiddiol a Phartneriaeth, ac ar gyfer Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Gweithredu a Phartneriaeth i gychwyn achos o dan y Deddfau hynny.

Cynigiwyd hefyd, lle y bo'n briodol, y byddai Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Gweithredol a Phartneriaeth, Rheolwr y Tîm Trwyddedu (Pen-y-Bont Ar Ogwr a'r Fro) a'r Uwch-swyddog Trwyddedu (Technegol) a'r Uwch-swyddog Gorfodi Trwyddedu yn cael eu hawdurdodi i gydnabod a chyhoeddi Hysbysiadau sy'n perthyn i Hysbysiadau Digwyddiadau Dros dro; dosbarthu, gwrthod, gohirio trwyddedu, cofrestriadau, tystysgrifau, hawlenni a hysbysiadau, i weithredu'r darpariaethau perthnasol ynglŷn â throseddau, adolygiadau neu ofynion eraill; yn unol ag unrhyw un o'r rheolau, rheoliadau

a/neu Gorchmynion a wnaed o dan Ddeddf Trwyddedu 2003 a Deddf Gamblo 2005 (fel y'i diwygiwyd). Byddai'r awdurdodiad mewn perthynas â Rheolwr y Tîm Trwyddedu (Pen-Y-Bont Ar Ogwr a'r Fro) a'r Uwch-swyddog Trwyddedu (Technegol) ond yn dod i rym wrth iddynt gael eu rhoi ar gael i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-Y-Bont Ar Ogwr yn unol ag adran 113 Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Gofynnwyd i'r Pwyllgor gymeradwyo'r trefniant presennol o ran ffurfio rhagor o is-bwyllgorau gan gynnwys tri Aelod o Bwyllgor Deddf Trwyddedu 2003 er mwyn pennu ceisiadau o dan Ddeddf Trwyddedu 2003 a Deddf Gamblo 2005. Gofynnwyd i'r Pwyllgor nodi bod rhaid i gymeradwyo datganiadau'r polisïau trwyddedu a gamblo, yn ôl y statud, gael eu pennu gan y Cyngor. Cynigiwyd y câi is-bwyllgorau Deddf Trwyddedu 2003eu cadeirio gan Gadeirydd neu is-Gadeirydd Pwyllgor Deddf Trwyddedu 2003 lle y bo'n bosibl. Os digwydd na allai'r Cadeirydd neu'r is-gadeirydd fod yn bresennol, câi cadeirydd ei ethol o'r rhai sy'n bresennol.

PENDERFYNWYD: Bod y Y Pwyllgor:

Yn ymarfer ei awdurdod dirprwyedig ac yn awdurdodi Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Gweithredol a Phartneriaeth i gychwyn achos o dan y Deddfau y soniwyd amdanynt uchod.

Byddai'n ymarfer ei awdurdod dirprwydedig i awdurdodi Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Gweithredol a Phartneriaeth, Rheolwr y Tîm Trwyddedu (Pen-y-Bont Ar Ogwr a'r Fro) a'r Uwch-swyddog Trwyddedu (Technegol) a'r Uwch-swyddog Gorfodi Trwyddedu i gydnabod a chyhoeddi Hysbysiadau sy'n perthyn i Hysbysiadau Digwyddiadau Dros dro; dosbarthu, gwrthod, gohirio trwyddedu, cofrestriadau, tystysgrifau, hawlenni a hysbysiadau, i weithredu'r darpariaethau perthnasol ynglŷn â throseddau, adolygiadau neu ofynion eraill; yn unol ag unrhyw un o'r rheolau, rheoliadau a/neu Gorchmynion a wnaed o dan Ddeddf Trwyddedu 2003 a Deddf Gamblo 2005 (fel y'i diwygiwyd).

- Byddai'n ymarfer ei awdurdod dirprwyedig i awdurdodi'r trefniadau ar gyfer ffurfio is-Bwyllgorau a restrir ym mharagraffau 4.3 a 4.4 o'r awdurdod.

26. MATERION BRYS

Dim

Daeth y cyfarfod i ben am 10:15